

Atodiad I – Eitemau Rhestr A a B

Tabl 1: Rhestr A – Tasgau y gellir eu cyflawni heb fod angen ymgynghori

Mae'r tabl hwn yn disgrifio tasgau y gellir eu cyflawni heb hawleb yn unol ag unrhyw amodau a nodir.

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
A1. Adeilad yr Eglwys ac ati	
(1) Gwaith rheolaidd cynnal a chadw nad yw'n effeithio ar yr adeiladwaith nac ar unrhyw ddefnyddiau hanesyddol	Rhaid hysbysu yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig os bwriedir codi sgaffaldiau allanol.
(2) Atgyweirio ac adnewyddu ffitiadau mewn ceginau, toiledau a swyddfeydd oedd yno eisoes	
(3) Atgyweirio gwydr ffenestr modern ar sail tebyg am debyg	Nid yw'r gwaith yn cynnwys atgyweirio cwareli sydd wedi torri neu gracio mewn ffenestri lliw na ffenestri clir hanesyddol
(4) Atgyweirio giardiau ffenestri rhwyll wifrog neu osod giardiau newydd ar sail tebyg am debyg	Dim ond gosodiadau nad ydynt yn rhydu a ddefnyddir a rheini i mewn i'r morter pan fo'n ymarferol. Eithrir yn benodol gosod giardiau ffenestr lle nad oedd rhai'n flaenorol.

(5) Gwaith rheolaidd atgyweirio a chynnal a chadw ar y canlynol, lle maent yn bodoli'n barod:	Nid yw'r gwaith yn cynnwys ychwanegu at unrhyw un o'r gosodiadau a nodir (heblaw am resymau diogelwch neu er mwyn cydymffurfio â rheoliadau).
(a) systemau gwresogi	Gwneir unrhyw waith ar gyfarpar nwy gan unigolyn sydd wedi cofrestru ar y Gofrestr Diogelwch Nwy (neu sy'n aelod o ddsbarth arall o bobl a gymeradwyir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at ddibenion Rheoliad 3(3) y Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998).
(b) gwasanaethau nwy, dŵr neu wasanaethau eraill	
(c) gosodiadau trydanol neu gyfarpar trydanol arall	Gwneir unrhyw waith yn ymwneud â gosodiad trydanol neu gyfarpar trydanol gan unigolyn sy'n gwneud y gwaith yn unol â chynllun ardystio achrededig.

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
(6) Gosod marciau fforensig ar blwm neu ddefnydd arall sy'n gorchuddio to neu ar gafnau a pheipiau dŵr glaw a chaeadau plwm	
(7) Gwaith ar roden fellt oedd yno eisoes	Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig ynghylch y gwaith arfaethedig a gwneir y gwaith gan gontractwr arbenigol a gymeradwyir gan yr yswirwyr.
(8) Atgyweirio, cynnal a chadw, symud ymaith neu adnewyddu polyn fflag neu gael gwared â pholyn fflag	Dim ond gosodiadau nad ydynt yn rhydu a ddefnyddir wrth atgyweirio polyn fflag neu osod polyn newydd yn lle hen un. Dylid gosod polyn newydd ar sail tebyg am debyg.
(9) Cyflwyno dodrefn, offer swyddfa a ffitiadau bach (heblaw coffrau), eu symud ymaith neu gael gwared arnynt mewn festrioedd ac ystafelloedd tebyg	Ni newidir y defnydd a wneir o'r festri. Ni symudir ymaith unrhyw eitem o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol o'r fan na chael gwared ag eitem o'r fath.

<p>(10) Gosod, symud ymaith neu gael gwared â diffoddyddion tân</p>	<p>Cydymffurfir ag unrhyw gyfarwyddiadau gan y cyflenwr neu yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig parthed y math o ddiffoddyddion a'u lleoliad.</p> <p>Ni ddylid gosod cyfarpar o'r fath yn sownd wrth yr adeiladwaith ac ni ddylai effeithio ar unrhyw nodwedd hanesyddol.</p>
<p>(11) Gwneud ychwanegiadau i fwrdd enwau oedd yno eisoes</p>	<p>Nid yw'r bwrdd yn gofeb ryfel neu'n rhestr anrhydeddau rhyfel.</p> <p>Mae'r ychwanegiad yn yr un arddull (gan gynnwys lliw a deunydd) â'r enwau oedd eisoes ar y bwrdd.</p>
<p>(12) Gosod blychau ystlumod fel rhan o raglen rheoli ystlumod a luniwyd gan aelod o Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol</p>	<p>Ni ddylid gosod blychau o'r fath yn sownd gyda gosodiadau mewnwithiol megis hoelion neu sgriwiau.</p>

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
<p>A2. Offerynnau cerdd</p>	
<p>(1) Cyflwyno neu gael gwared ag offerynnau cerdd (heblaw organau a phianos traws) a chyfarpar cysylltiedig</p>	<p>Ni cheir gwared ag unrhyw eitem o ddi-ddordeb hanesyddol neu gelfyddydol.</p>
<p>(2) Tiwnio a gwaith chynnal a chadw rheolaidd ar organau a phianos</p>	<p>Yn achos organau, nid yw unrhyw waith yn cynnwys newidiadau i dôn yr organ, newidiadau i'w gweithrediad nac unrhyw ddatgymalu o bwys ar yr offeryn.</p>

A3. Clychau ac ati

(1) Archwilio clychau, gosodiadau clychau a fframiau clychau a gwneud gwaith rheolaidd cynnal a chadw arnynt

Ni wneir unrhyw newidiadau i dôn unrhyw gloch.

Ni chodir unrhyw gloch oddi ar ei berynnau.

(2) Atgyweirio a chynnal a chadw tafodau, styffylau corun (gan gynnwys adnewyddu bwshys) ac olwynion clychau

Nid yw'r gwaith yn cynnwys ailwadnu neu ailosod rhimyn olwyn cloch.

Ni chodir unrhyw gloch oddi ar ei berynnau.

(3) Atgyweirio neu adnewyddu dalwyr clychau, pwlïau, rhaffau clychau (gan gynnwys cyfarpar Ellacombe), bylau rhaff, llithryddion neu gyfarpar llithryddion

Ni chodir unrhyw gloch oddi ar ei berynnau.

(4) Ailbeintio fframiau cloch metel a gosodiadau cloch metel

Ni chodir unrhyw gloch oddi ar ei berynnau.

A4. Clociau

(1) Archwilio a gwneud gwaith rheolaidd chynnal a chadw ar glociau a wynebau clociau

Nid yw'r gwaith cynnal a chadw yn cynnwys ailbeintio nac aileuro wynebau clociau.

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
A5. Cynnwys yr Eglwys	
(1) Atgyweirio gwaith coed, gwaith metel ac eitemau symudol	<p>Defnyddir defnyddiau tebyg i'r gwreiddiol.</p> <p>Nid yw'r gwaith atgyweirio'n cynnwys unrhyw waith yn ymwneud â'r canlynol:</p> <p>gwaith coed neu waith metel o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arbeisiau brenhinol • arbeisiau neu gyfuniadau herodrol eraill • darluniau • brethynnau o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol • eitemau o waith plât eglwysig (gan gynnwys canwyllbrennau a chroesau)
(2) Gosod marciau fforensig ar eitemau	<p>Ni chaiff unrhyw eitem o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol ei marcio.</p>
(3) Cyflwyno, symud ymaith neu gael gwared â chlustogau pen-glin, hasogau a gorchuddion a chlustogau seddau	<p>Nid yw cyflwyno, symud ymaith na chael gwared a'r eitemau'n newid edrychiad cyffredinol yr eglwys.</p> <p>Ni symudir ymaith ac ni cheir gwared ag unrhyw eitem o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol.</p>

<p>(4) Cyflwyno, symud ymaith neu gael gwared â'r canlynol:</p> <p>(a) cypyrddau llyfrau y gellir eu symud</p> <p>(b) llyfrau</p> <p>(c) hysbysfyrddau heb fod yn sefydlog</p> <p>(ch) stondinau arddangos y gellir eu symud</p> <p>(d) criwetau</p> <p>(dd) fasau a standiau blodau</p> <p>(e) byrddau emynau</p> <p>(f) lliainiau allor (ond nid blaenlenni allor)</p> <p>(ff) fflagiau a baneri a ddefnyddir ar gyfer arddangosfeydd dros dro (ond nid cyflwyno baneri'n seremonïol neu symud ymaith neu gael gwared â baneri o'r fath)</p> <p>(g) Y Ddraig Goch, Baner Dewi Sant, Baner yr Eglwys yng Nghymru neu Faner yr Undeb i'w hedfan o'r eglwys</p>	<p>Ni symudir ymaith ac ni cheir gwared ag unrhyw eitem o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol.</p>
--	--

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
<p>A7. Y Fynwent</p> <p>(1) Cyflwyno a chynnal a chadw cyfarpar ar gyfer gofalu am yr Eglwys a'r fynwent</p> <p>(2) Atgyweirio llwybrau ac ardaloedd eraill â wyneb caled, gan gynnwys ailwynebu â'r un defnyddiau a lliwiau</p>	<p>Nid yw i gynnwys ailwynebu heblaw am ddarnau bach o'r wynebau.</p>

(3) Gwaith rheolaidd cynnal a chadw ac atgyweirio ffensys a chlwydi, a'u cyfnewid tebyg am debyg (ond nid yw hyn yn cynnwys pyrth mynwentydd, waliau neu reilins hanesyddol)

Nid yw'r gwaith yn cynnwys unrhyw ymyrraeth newydd dan lefel y ddaear.

(4) Atgyweirio hysbysfwrdd eu ailbeintio hysbysfwrdd

(5) Pori yn y fynwent

Ar yr amod bod y Gorff y Cynrychiolwyr yn cyflwyno trwydded briodol i ganiatáu pori.

A8. Coed

(1) Cwmpo, tocio neu frigidorri coeden nad yw diamedr unrhyw frigyn ohoni'n fwy na 75 milimetr (wedi'i fesur dros y rhisgl ar uchder o 1.5 metr uwchlaw'r ddaear)

Rhaid i unrhyw waith o'r fath fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac mewn ysgrifen gan yr Archddiacon.

Nid yw'r gwaith yn ymwneud ag unrhyw goeden y mae gorchymyn diogelu coed mewn grym ar ei chyfer neu sydd mewn ardal gadwraeth

Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr parthed rheoli coed.

(2) Tocio neu frigidorri unrhyw goeden:

Rhaid i unrhyw waith o'r fath fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac mewn ysgrifen gan yr Archddiacon.

(a) sydd ar farw neu a fu farw; neu

(b) sydd wedi mynd yn beryglus

Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr parthed rheoli coed.

<p>(3) Torri brigau marw oddi ar goeden fyw</p>	<p>Rhaid i unrhyw waith o'r fath fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac mewn ysgrifen gan yr Archddiacon.</p> <p>Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr parthed rheoli coed.</p>
<p>(4) Plannu coed</p>	<p>Rhaid i unrhyw waith o'r fath fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac mewn ysgrifen gan yr Archddiacon.</p> <p>Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr parthed rheoli coed.</p>
<p>5) Cwmpo coeden:</p> <p>(a) sydd ar farw neu a fu farw; neu</p> <p>(b) sydd wedi mynd yn beryglus</p>	<p>Rhaid i unrhyw waith o'r fath fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac mewn ysgrifen gan yr Archddiacon.</p> <p>Yn achos unrhyw goeden y mae gorchymyn diogelu coed mewn grym ar ei chyfer neu sydd mewn ardal gadwraeth, byddir yn cydymffurfio ag adran 206 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n darparu ar gyfer plannu coed newydd yn lle hen rai).</p> <p>Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr parthed rheoli coed.</p>
<p>(6) Unrhyw waith arall ar goed (p'run ai a nodir hwnnw uchod ai peidio) heblaw cwmpo</p>	<p>Rhaid i unrhyw waith o'r fath fod wedi'i gymeradwyo ymlaen llaw ac mewn ysgrifen gan yr Archddiacon.</p> <p>Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr parthed rheoli coed.</p> <p>Os yn berthnasol, cydymffurfir â'r gyfraith ynghylch diogelu coed y mae gorchymyn diogelu coed mewn grym ar eu cyfer neu sydd mewn ardal gadwraeth.</p>

Rhestr B – Tasgau y gellir eu cyflawni heb hawleb lawn, ond yn amodol ar ymgynghori

Mae'r tabl hwn yn disgrifio tasgau y gellir eu cyflawni, yn unol ag unrhyw amodau a nodir, heb hawleb yn dilyn ymgynghori â'r Cofrestrydd a bod y Cofrestrydd wedi hysbysu'n ysgrifenedig y gellir cyflawni'r dasg heb hawleb. Gall y Cofrestrydd osod amodau ychwanegol yn yr hysbysiad ysgrifenedig.

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
B1. Adeilad yr Eglwys ac ati	
(1) Gwaith rheolaidd cynnal a chadw ac atgyweirio sy'n effeithio ar adeiladwaith yr Eglwys neu ar eitemau hanesyddol	<p>Nodir y tasgau fel tasgau cynnal a chadw rheolaidd yn Adroddiad yr Adolygiad Pum-mlyneddol diweddaraf a gomisiynwyd gan yr Esgobaeth ar yr Eglwys.</p> <p>Hysbysir y Cofrestrydd ynghylch manylion y defnyddiau a ddefnyddir pan fyddir yn ymgynghori â'r Cofrestrydd ynghylch y cais i gyflawni'r dasg.</p> <p>Nid yw'r gwaith yn cynnwys unrhyw ymyrraeth newydd dan lefel y ddaear.</p> <p>Os nad yw'r atgyweiriadau'n union gydweddu a'r adeiladwaith hanesyddol presennol neu os byddai'r gwaith yn gofyn symud llawer o ddefnydd hanesyddol ymaith, yna dylid ceisio hawleb.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig os bwriedir gosod sgaffaldiau allanol.</p>
(2) Gosod blwch rhoddion ar y wal	Nid yw gosod y blwch yn effeithio ar unrhyw adeiladwaith hanesyddol.
(3) Gosod coffor mewn festri neu ystafell debyg	
(4) Gwaith ailaddurno allanol neu fewnol (heblaw ar fannau lle mae murluniau hanesyddol, hyd yn oed os ydynt eisoes wedi'u peintio drostynt)	<p>Hysbysir y Cofrestrydd ynghylch manylion y defnyddiau a'r lliwiau presennol a'r rhai arfaethedig pan fyddir yn ymgynghori â'r Cofrestrydd ynghylch y cais i gyflawni'r dasg.</p> <p>Ni newidir ymddangosiad cyffredinol yr adeilad.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig os bwriedir gosod sgaffaldiau allanol.</p>

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
(5) Trin gwaith coed rhag effeithiau chwilod neu ffwng	Nid yw'r gwaith yn cynnwys gosod pren newydd yn lle hen bren.
<p>(6) Gwaith addasu (heb gynnwys ychwanegiadau sylweddol nac adnewyddu) i:</p> <p>(a) systemau gwresogi</p> <p>(b) cyflenwadau nwy, dŵr a gwasanaethau eraill</p> <p>(c) gosodiadau trydan a chyfarpar trydanol arall</p>	<p>Gwneir unrhyw waith ar gyfarpar nwy gan unigolyn sydd wedi cofrestru ar y Gofrestr Diogelwch Nwy (neu sy'n aelod o ddsbarth arall o bobl a gymeradwyir gam yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at ddibenion Rheoliad 3(3) y Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998).</p> <p>Gwneir unrhyw waith yn ymwneud â gosodiad trydan neu gyfarpar trydanol arall gan unigolyn sy'n gwneud y gwaith yn unol â chynllun cofrestru achrededig.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig ynghylch y gwaith arfaethedig.</p>
(7) Gosod bwylwr newydd yn yr un lleoliad â'r un blaenrol gan ddefnyddio cyflenwad tanwydd a llwybrau pibellau oedd yno eisoes	<p>Gwneir unrhyw waith ar gyfarpar nwy gan unigolyn sydd wedi cofrestru ar y Gofrestr Diogelwch Nwy (neu sy'n aelod o ddsbarth arall o bobl a gymeradwyir gam yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at ddibenion Rheoliad 3(3) y Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998).</p> <p>Nid yw'r gwaith yn cynnwys creu fflw allanol newydd.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig ynghylch y gwaith arfaethedig.</p>
(8) Gosod o'r newydd neu adnewyddu offer rheoli sy'n gysylltiedig â bwylwr neu system gwres canolog oedd yno eisoes	<p>Gwneir unrhyw waith ar gyfarpar nwy gan unigolyn sydd wedi cofrestru ar y Gofrestr Diogelwch Nwy (neu sy'n aelod o ddsbarth arall o bobl a gymeradwyir gam yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at ddibenion Rheoliad 3(3) y Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998).</p> <p>Gwneir unrhyw waith yn ymwneud â gosodiad trydan neu gyfarpar trydanol arall gan unigolyn sy'n gwneud y gwaith yn unol â chynllun cofrestru achrededig.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig ynghylch y gwaith arfaethedig.</p>

<p>(9) Gosod deunyddiau to newydd ar sail tebyg am debyg i'r hen ddefnyddiau</p>	<p>Ni osodwyd y defnyddiau sy'n cael eu disodli'n anghyfreithlon.</p> <p>Dylai'r gwaith adnewyddu fod yn gyfyngedig i un darn neu ran o'r to, er enghraifft, yn dilyn difrod gan storm.</p> <p>Ni ddylid ailosod to cyfan ond gyda hawleb lawn.</p>
--	---

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
	<p>Dylai'r defnydd newydd gydweddu'n faterol ac yn weledol â'r defnydd blaenorol.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig ynghylch y gwaith arfaethedig.</p>
<p>(10) Gosod larwm to</p>	<p>Cedwir hyd y ceblau cysylltiedig i'r byrraf sydd yn rhesymol ymarferol.</p>
<p>(11) Gosod goleuadau a chyfarpar diogelwch</p>	<p>Gosodir y goleuadau neu'r cyfarpar arall ond mewn rhan o'r Eglwys (megis mewn tŵr neu gladdgell) nad yw'r cyhoedd fel arfer yn gallu ei gweld neu eu gosod fel na fydd y goleuadau neu'r cyfarpar yn weladwy o lefel y ddaear.</p> <p>Gwneir unrhyw waith yn ymwneud â gosodiad trydan neu gyfarpar trydanol arall gan unigolyn sy'n gwneud y gwaith yn unol â chynllun cofrestru achrededig.</p> <p>Ni fydd y gwaith yn effeithio ar unrhyw feddau neu gladdgelloedd.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig ynghylch y gwaith arfaethedig.</p>

(12) Gosod rhoden fellt	Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig ynghylch y gwaith arfaethedig a gwneir y gwaith gan contractwr arbenigol a gymeradwyr gan yr yswirwyr.
(13) Gosod system mwyhau sain symudol neu system dolen symudol neu addasu system bresennol	Bydd angen hawleb lawn ar gyfer gosod unrhyw system barhaol.
(14) Gosod pigynnau i atal nythu	Dim ond gosodiadau nad ydynt yn rhydu a ddefnyddir a rheini i mewn i'r morter pan fo'n ymarferol.

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
B2. Clychau ac ati	
(1) Codi cloch i ganiatáu glanhau berynnau ac amgaeadau	Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr neu Gyngorydd Clychau'r Esgobaeth. Mae'r gloch ar y pryd mewn cyflwr addas i'w chanu.
(2) Amnewid y canlynol tebyg am debyg: (a) berynnau a'u hamgaeadau (b) corddynau (c) stffwl corun (ch) berynnau dur neu haearn bwrw (d) olwynion	Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr neu Gyngorwr Clychau'r Esgobaeth. Mae'r gloch ar y pryd mewn cyflwr addas i'w chanu. Nid yw'r gwaith yn cynnwys drilio na thurnio'r gloch.

<p>(3) Amnewid:</p> <p>a) bolltau clychau</p> <p>b) siafft tafod haearn bwrw am siafft tafod pren</p>	<p>Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr neu Gyngorydd Clychau'r Esgobaeth.</p> <p>Mae'r gloch ar y pryd mewn cyflwr addas i'w chanu.</p>
<p>(4) Trin fframiau clychau pren â chadwolion neu bryfladdwyr</p>	
<p>(5) Ailbinio neu ailwynebu morthwylion mewn cyfarpar Ellacombe</p>	<p>Dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr neu Gyngorydd Clychau'r Esgobaeth.</p> <p>Mae'r clychau ar y pryd mewn cyflwr addas i'w canu.</p>
<p>(6) Gosod byrddau caniadau mewn lleoliad nad yw fel arfer yn weladwy i'r cyhoedd</p>	

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
<p>B3. Clociau</p>	
<p>(1) Newid trefn taro er mwyn rhwystro taro yn ystod y nos</p>	<p>Ni effeithir ar unrhyw ran o beirianwaith y cloc.</p>
<p>(2) Diweddarau cyfarpar rheoli electronig a rhaglenwyr</p>	

B4. Cynnwys yr Eglwys	
(1) Atgyweirio a chynnal a chadw gwaith plât eglwysig (gan gynnwys canwyllbrennau a chroesau) nad ydynt o ddiddordeb arbennig yn hanesyddol neu'n gelfyddydol	
(2) Cyflwyno, cynnal a chadw neu adnewyddu cyfarpar clywedol cludadwy a ddefnyddir mewn cysylltiad â gwasanaethau eglwysig	Ni osodir unrhyw gyfarpar yn sownd wrth adeiladwaith yr Eglwys
(3) Gosod carpedi, gorchuddion llawr ac isgarpedi newydd yn lle hen rai	Defnyddir ond isgarpedi anadladwy wrth ddisodli hen isgarpedi.. Hysbysir y Cofrestrydd ynghylch manylion y lliwiau a'r gosodiadau arfaethedig pan fyddir yn ymgynghori â'r Cofrestrydd ynghylch y cais i gyflawni'r dasg.
(4) Gosod llenni newydd yn lle hen rai (heblaw llenni a chroglenni eraill sy'n gysylltiedig ag allor)	
(5) Trin gosodiadau a dodrefn rhag effeithiau chwilod neu ffwng	

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
(6) Cyflwyno llyfr coffa a stand	
(7) Gosod hysbysfwrdd sefydlog mewnol	

(8) Cael gwared â chadeiriau heb fod yn rhai sefydlog	Ni cheir gwared ag unrhyw gadair sydd o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol.
(9) Gosod piano traws yn lle piano traws arall a chael gwared â'r piano traws gwreiddiol	Ni cheir gwared ag unrhyw piano sydd o ddiddordeb hanesyddol neu gelfyddydol.
B5. Y Fynwent	
(1) Gosod meinciau yn y fynwent	Nid oes arysgrif ar unrhyw fainc na fyddid yn ei chaniatáu ar gofadaill yn y fynwent o dan y rheoliadau mynwent perthnasol neu na fyddai'r Canghellor yn ei gymeradwyo.
(2) Gosod tanciau nwy neu olew newydd yn lle hen rai	Mae'r tanc newydd o fesuriadau tebyg i'r un gwreiddiol a fwy neu lai ar yr un safle. Ni chynhwysir unrhyw waith cloddio. Hysbysir yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch y bwriad.
(3) Gwaith rheolaidd cynnal a chadw, atgyweirio neu ailadeiladu muriau	Nid yw'r gwaith yn ymwneud ag unrhyw fur sydd wedi'i restru ar wahân i'r Eglwys neu sydd wedi ei gynnwys yn y Gofrestr a gedwir at ddibenion Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Nodir y tasgau fel tasgau cynnal a chadw rheolaidd yn Adroddiad yr Adolygiad Pum-mlyneddol diweddaraf a gomisiynwyd gan yr Esgobaeth ar yr Eglwys. Hysbysir y Cofrestrydd ynghylch manylion y defnyddiau a ddefnyddir pan fyddir yn ymgynghori â'r Cofrestrydd ynghylch y cais i gyflawni'r dasg.

<i>Tasg</i>	<i>Amodau a nodir</i>
	<p>Nid yw'r gwaith yn cynnwys unrhyw ymyrraeth newydd dan lefel y ddaear.</p> <p>Hysbysir yswirwyr y Cyngor Plwyfol Eglwysig os bwriedir gosod sgaffaldiau allanol.</p>
(4) Gwaith rheolaidd cynnal a chadw neu atgyweirio pyrth mynwent	<p>Nid yw'r porth mynwent wedi'i restru ar wahân fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.</p>
(5) Ailwynebu llwybrau â'r un defnyddiau o'r un lliw	

Tina Andrew
Yr Eglwys yng Nghymru
11 Mai 2018